


O 'Clywch lu'r Nef' i 'Gŵyl y Baban', mae'r Nadolig yn gyfnod lle mae canu yn chwarae rhan fawr. Mae'r siopau yn newid i chwarae cerddoriaeth Nadoligaidd ac mae'r carolau hen a newydd i'w clywed yn ein capeli. Mae hanes geni Iesu Grist yn y Beibl hefyd yn llawn canu a moli Duw. Beth am dreulio ychydig o amser y Nadolig hwn yn myfyrio ar 'ganeuon y Nadolig' o efengyl Luc. Wrth edrych ar fawl Mair, Sachareias, yr angylion a'r bugeiliaid, gobeithio y gallwn ni weithredu geiriau'r garol 'O! Deuwn ac Addolwn Grist o'r Nef'.

## Diwrnod 1: Emyn Mawl Mair – Y Cyd-destun

Rydym yn mynd i edrych ar gân mawl Mair, ond yn gyntaf, rhaid deall pam ei bod hi'n canu.

Darllena Luc 1:26-38

- Beth ydyn ni'n dysgu am sefyllfa Mair (ad. 26-27) ac yna am gymeriad Mair (ad. 29, 34, 38)?
- Roedd Mair yn ymddangos yn ferch fach gyffredin ond beth mae'r angel yn ei ailadrodd yn adnod 28 a 30? Beth mae hyn yn ei ddweud am sut mae Duw yn dewis ei bobl?
- Mae darluniau ad. 32-33 yn canolbwyntio ar Iesu fel brenin yn teyrnasu am byth, felly mae E dal yn Frenin heddiw! Sut ddylem ni fyw ein bywydau o wybod fod Iesu yn Frenin arnom?

*Gweddi: O Dduw, diolch i Ti am ddefnyddio pobl gyffredin fel Mair i weithredu dy bwrpasau. Diolch am ddangos ffafr i bobl sydd wedi dy wrthod. Diolch fod Iesu dal yn frenin heddiw. Helpa fi i ildio pob rhan o fy mywyd er mwyn teyrnas Iesu Grist. Amen.*

## Diwrnod 2: Emyn Mawl Mair I

Ar ôl diwrnod mwyaf rhyfedd bywyd Mair (nid bob dydd mae merch o Nasareth yn gweld a siarad ag angel!) mae hi'n mynd i weld ei chyfnither i rannu'r newyddion da, ac yno mae hi'n moli Duw am beth mae E wedi ei wneud drosti hi a thros bobl ym mhob man.

Darllena Luc 1:46-55.

Heddiw, canolbwyntiwn ar ad. 46-50.

Llwybrau

- Beth ydyn ni'n dysgu am gymeriad a natur Duw drwy addoliad Mair? (Gwna restr efallai)
- Sut mae Mair yn disgrifio ei hun a'i safle o flaen Duw? (Edrycha ar yr enwau mae hi'n galw Duw)
- Mae addoliad Mair yn tarddu o wybodaeth ddofn o'r Beibl (yr Hen Destament) ac o brofiad personol o Dduw. Pam bod y ddau yn bwysig wrth addoli Duw?

*Gweddi: O Dduw, diolch dy fod Ti yn fawr, yn Arglwydd, yn Waredwr, yn nerthol a sanctaidd a thrugarog. Does neb fel Ti o Dduw! Helpa fi i ddarllen y Beibl, dy Air di, er mwyn dod i dy nabod di yn well, a chyffwrdd fi yn bersonol er mwyn i fi dy addoli o fy enaid i. Amen.*

## Diwrnod 3: Emyn Mawl Mair II

Darllena Luc 1:46-55 unwaith eto.

Heddiw, ystyriwn ad. 51-55.

- Sut mae Duw yn dangos trugaredd i'r rhai sy'n ei ofni?
- Roedd geni Iesu Grist yn gyflawniad o addewid Duw ar ddechrau'r Beibl yn Genesis 3:15 ac yna i Abraham yn Genesis 12:3 (a llawer mwy). Beth mae hyn yn dweud wrthym am Dduw, ac am arwyddocâd Iesu?
- O wybod bod Duw yn nerthol i ofalu am ei bobl ac i gadw ei addewid, pa bethau/sefyllfaoedd/pobl yn ein bywyd ni y gallwn ni gyflwyno i Dduw?

*Gweddi: O Dad, diolch am dy drugaredd anhygoel a dy ofal am dy bobl. Diolch bod geni Iesu yn rhan o dy gynllun tragwyddol Di i'n hachub ni. O Dad, dwi'n cyflwyno* [dy bethau/sefyllfaoedd/pobl di] *i dy ofal Di. Amen.*

## Diwrnod 4: Proffwydoliaeth Sachareias – Y Cyd-destun

Yr ail gân yn efengyl Luc yw proffwydoliaeth Sachareias, ond fel gyda Mair rhaid i ni wybod ychydig amdano gyntaf.

Darllena Luc 1:5-25.

- Sut bobl oedd Elisabeth a Sachareias? (ad. 5-9)
- Beth oedd swydd Ioan yn mynd i fod? (ad. 15-17)
- Beth oedd ymateb Sachareias i neges yr angel? (ad. 18-20)
- Yn y dyddiau hynny, roedd gwraig nad oedd yn gallu beichiogi yn cael ei hystyried gan y gymdeithas yn fethiant ac yn warth. Sut mae Duw yn trawsnewid bywyd Elisabeth? (ad. 25)
- Mae Sachareias ac Elisabeth yn ein dysgu ni i ymddiried yn Nuw, er y rhwystrau dynol ac i roi'r clod Iddo am ei ras. Oes yna agwedd o'n bywyd ni lle nad ydyn ni'n ymddiried yn Nuw, ac angen diolch Iddo am ei ras?

*Gweddi: O Dduw, diolch fod dy Air yn hollol ddibynadwy. Helpa ni i ymddiried ynot ti. Diolch dy fod ti yn amyneddgar ac yn rasol tuag atom. Helpa ni i fod yn gyfiawn ac i roi'r clod i ti am bob bendith. Amen.*

## Diwrnod 5: Proffwydoliaeth Sachareias I

Rydym ni'n edrych ar efengyl Luc. Mae 'efengyl' yn golygu newyddion da. Mae'r gair 'efengyl' yn aml yn cael ei ddefnyddio i gynrychioli popeth mae Iesu wedi ei wneud drosom. Yng nghân Sachareias rydym yn gweld beth yw'r efengyl a pham bod dyfodiad Iesu Grist yn newyddion da.

Darllena Luc 1:67-80

Heddiw, canolbwyntiwn ar ad. 67-69.

llwybrau

- Sut mae adnod 68 yn ein hatgoffa ni am 'Emaniwel' sy'n golygu 'Duw gyda ni'? Darllena Ioan 1:14.
- Mae Duw wedi dod atom i brynu rhyddid i ni, ond rhyddid o beth? Darllena Effesiaid 1:7.
- Sut mae Sachareias yn disgrifio'r un fydd yn achub (ad. 69)? Darllena Salm 132:17 a Salm 148:14.

*Gweddi: O Dduw Dad, diolch dy fod wedi dod i'n byd ni i brynu rhyddid i ni o gaethiwed pechod. Diolch dy fod wedi darparu achubiaeth gadarn a chryf i ni yn Iesu Grist. Helpa fi i ymddiried ynot Ti yn unig. Amen.*

## Diwrnod 6: Proffwydoliaeth Sachareias II

Darllena Luc 1:67-80 ac Effesiaid 2:1-10

Heddiw, canolbwyntiwn ar ad. 70-75 o broffwydoliaeth Sachareias.

- Mae Duw y Tad, trwy Iesu Grist wedi prynu rhyddid i ni ac wedi ein hachub o'n gelynion yn unol â'i addewid. Pwy yw ein gelyn a beth sy'n ein caethiwo? (Effes. 2:1-3)
- Beth yw trugaredd? (ad. 72; Effes. 2:4-5)
- Beth ddylai ein hymateb ni fod i achubiaeth Dduw? (ad. 74-75)
- Beth mae'n golygu i addoli Duw a sut allwn ni wneud hynny drwy gydol ein bywyd? (Effes. 2:8-10)

*Gweddi: O Dad, diolch am fy achub i. Maddau i fi am droi i ffwrdd oddi wrthot ti. Diolch am dy drugaredd tuag ataf fi. Oherwydd dy ras di, helpa fi i fyw bywyd o weithredoedd da fel yr wyt ti am i mi wneud. Amen.*

## Diwrnod 7: Proffwydoliaeth Sachareias III

Darllena Luc 1:67-80

Heddiw, canolbwyntiwn ar ad. 76-79.
Mae Sachareias yn llawenhau ym mraint ei fab, Ioan, y bydd e'n paratoi ffordd i'r Arglwydd Iesu Grist ac yn dweud wrth bobl bod maddeuant pechodau i'w gael.

- Pam bod maddeuant pechodau yn angenrheidiol? Darllena 1 Pedr 2:24-25 i feddwl mwy am hyn.
- Sut mae Duw yn cael ei ddisgrifio yn adnod 78?
- Beth mae Duw yn rhoi i'w bobl yn adnod 79 a pham bod hyn yn newyddion da?

*Gweddi: O Dduw sy'n llawn trugaredd, diolch am ddangos trugaredd i fi. Sori am yr hyn rwy'n ei wneud sydd yn mynd yn dy erbyn di. Plîs maddau i fi oherwydd dy drugaredd. Diolch dy fod yn rhoi goleuni a heddwch i ni, helpa fi i brofi hynny ac i arddangos dy roddion i eraill. Amen.*

llwybrau